

PWYLLGOR: **PWYLLGOR PENSIYNAU**

DYDDIAD: **16 MAI 2019**

TEITL: **YMGYNGHORIAD POLISI'R WEINYDDIAETH TAI, CYMUNEDAU A LLYWODRAETH LEOL (MHCLG) - 'CYNLLUN PENSIWN LLYWODRAETH LEOL: NEWIDIADAU I'R CYLCH PRISIO LLEOL A'R POLISI RHEOLAETH RISG CYFLOGWYR'**

PWRPAS: **ER GWYBODAETH**

AWDUR: **DAFYDD L EDWARDS, PENNAETH CYLLID**

1. Er gwybodaeth, gweler yn atodol ymgynghoriad polisi'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (MHCLG) 'Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol: Newidiadau i'r cylch prisio lleol a'r polisi rheolaeth risg cyflogwyr'.
2. Mae'r ymgynghoriad Llywodraeth San Steffan yma'n ceisio diwygio rheolau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yng Nghymru a Lloegr, ac yn cwmpasu (inter alia) diwygiadau i brisiadau'r gronfa leol o'r tair blynedd gyfredol ('triennial') i gylch pedair blynedd ('quadrennial'), a chynigion ar gyfer hyblygrwydd ar daliadau ymadael.
3. Dim ond newydd gychwyn y mae ymgynghoriad MHCLG a cheisir barn er mwyn ffurfio a chyflwyno ymateb i'r cwestiynau ar ran Cronfa Bensiwn Gwynedd cyn 31 Gorffennaf 2019. Cyn hynny, wrth gwrs, bydd swyddogion yn gofyn am arweiniad gan actiwari'r Gronfa, Hymans Robertson, a gan gyrff proffesiynol (CIPFA, SWT, POG, ayb).
4. Bydd swyddogion yn paratoi ymateb drafft mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd, a fydd yn cael ei gyflwyno i gyfarfod y Pwyllgor Pensiynau ar 29 Gorffennaf 2019 i'w gymeradwyo cyn ei gyflwyno i'r MHCLG ar ran Cronfa Bensiwn Gwynedd.
5. Hysbysir cyflogwyr y Gronfa yn unol â hynny, i'w galluogi i gyflwyno eu hymateb eu hunain yn uniongyrchol i'r MHCLG.